

Cyfeirnod: IR780

Dyddiad cyhoeddi: 15 Mehefin 2021

Cyngor Cymuned Clocaenog

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 18 Medi 2021 lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth ynghylch Magwyr gyda Chyngor Cymuned Gwndy.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol:

Rwy'n deall fod eich swyddfeydd wedi cynhyrchu adroddiad yn ddiweddar am Gyngor Cymuned Clocaenog, a leolir yn Sir Ddinbych. Rwy'n gofyn am gopi o'r adroddiad hwn o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Yn ddiweddar rydym wedi cwblhau gwaith archwilio ar Gyngor Cymuned Clocaenog ac wedi paratoi "dogfen ystyried", sydd, er mwyn cwrdd ag egwyddorion cyfiawnder naturiol, wedi ei roi i'r Cyngor am sylw. Unwaith y bydd y broses o roi cyfle i roi sylwadau wedi gorffen, byddwn yn ystyried a ddylid cyhoeddi adroddiad.

Nid yw'n glir a yw'r "ddogfen ystyried" yn dod o fewn cwmpas eich cais. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw'n dod o fewn cwmpas, byddai datgelu ar hyn o bryd o'n gwaith yn amlwg yn peryglu swyddogaethau archwilio cyfiawnder naturiol a rhagfarn. Felly mae'r ddogfen yn dod o fewn yr eithriad adran 33 (2) a ddarperir gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Rwyf wedi ystyried cydbwysedd budd y cyhoedd i gynnal yr eithriad hwnnw. Tra ar y naill law mae budd y cyhoedd mewn rhoi cyhoeddusrwydd i waith archwilio er mwyn hwyluso atebolrwydd dros ddefnyddio arian cyhoeddus, ar y llaw arall tanseiliwyd tegwch (cyfiawnder naturiol) ac archwilio effeithiol drwy ddatgelu cyn y cyfle i wneud sylwadau a phenderfyniad ynghylch a ddylid cyhoeddi adroddiad ddod i ben. Mae adroddiad sydd wedi cael budd sylwadau, megis mewn perthynas â chywirdeb ffeithiol, yn llawer mwy tebygol iawn o hwyluso atebolrwydd priodol na dogfen ystyriaeth. Hefyd, mae peidio â chaniatáu i'r cyfle i wneud sylw ddod i ben yn debygol o leihau ymddiriedaeth mewn archwilwyr a lleihau cydweithrediad cyrff archwilio gyda phroses archwilio. Rwyf felly wedi dod i'r casgliad bod budd y cyhoedd yn gorwedd gyda chynnal eithriad adran 33, ac felly rwy'n atal y ddogfen ystyried.

Os hoffech ofyn am adolygiad mewnol ynglŷn â'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Pennaeth Cyfraith a Moeseg, drwy e-bost at martin.peters@archwilio.cymru neu drwy'r post i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid imi hefyd eich cyfeirio at adran 50 Deddf Rhyddid Gwybodaeth lle gallwch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd â'ch cais ai peidio yn unol â'r Ddeddf. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi disbyddu ein gweithdrefnau cwyno mewnol cyn delio â chais o'r fath. Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/>

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth